# **Nodweddion cyffredin** gwireddu'r **Fframwaith Cymhwysedd Digidol** yn **llwyddiannus**

## Arweinwyr

- Diffiniwch yn glir y **weledigaeth a'r cyfeiriad strategol** ar gyfer yr ysgol; mae'r weledigaeth hon yn esblygu wrth i'r ysgol adolygu ei chynnydd o ran gwireddu'r Fframwaith
- Pennwch **werthoedd ac ymddygiadau proffesiynol** ymhlith staff i gefnogi gwelliant parhaus a gwaith tîm effeithiol
- Dylid pennu a chynnal diwylliant lle rhoddir y brif flaenoriaeth i **wella safonau a lles** ar gyfer pob disgybl
- Gwnewch yn siŵr fod **gwella'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol, a'u haddysgu** yn broses allweddol sy'n cyfrannu at wella safonau mewn medrau digidol
- Cyflwynwch **fframwaith cymhwysedd digidol** / **cwricwlwm** sy'n **bodloni anghenion pob disgybl** yn llawn
- Cynhaliwch ffocws cyson ar wella medrau **digidol** disgyblion, gan gynnwys medrau meddwl, datrys problemau a rhesymu lefel uwch
- Gwnewch yn siŵr fod cyfleoedd **dysgu proffesiynol** ar gyfer staff yn gwella ansawdd y ddarpariaeth a safonau medrau digidol ar gyfer disgyblion
- Gwnewch bob un o'r staff, yn enwedig y rheiny mewn rolau rheoli, yn **atebol** am wireddu'r Fframwaith yn llwyddiannus
- Gwnewch yn siŵr fod deilliannau **hunanarfarnu** yn deillio o **dystiolaeth uniongyrchol** a'u bod **wedi'u cysylltu'n agos â blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwella**
- Rhowch ddadansoddiadau clir, dealladwy a gonest i **lywodraethwyr** o ba mor dda y mae'r ysgol yn perfformio a'u hannog i herio tanberfformio

| | Dechrau'r daith | Gwneud cynnydd | Adeiladu momentwm | Cynnal cynnydd |
|---|---|---|---|---|
| **Gweledigaeth strategol** | Pennwch weledigaeth ar gyfer gwireddu'r Fframwaith | Mae pob un o'r staff a chymuned yr ysgol yn deall gweledigaeth a nodau'r ysgol. Mae arweinwyr yn adolygu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau eu bod yn cefnogi gwelliant pellach. | Mae pob un o'r staff a chymuned yr ysgol yn datblygu gweledigaeth yr ysgol ar gyfer gwelliant parhaus ac yn adnabod eu rolau o ran gwireddu'r weledigaeth. Maent yn adolygu'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau eu bod yn cefnogi gwelliant pellach. | Mae'r ysgol yn parhau â'r weledigaeth a'r cyfeiriad strategol i sicrhau ei bod yn cynnal safonau uchel ac yn cefnogi gwelliant pellach. |
| **Datblygu rôl yr arweinydd digidol ac arweinwyr eraill yn yr ysgol** | Pennwch strwythur rheoli clir i gefnogi'r Fframwaith.<br><br>Penodwch arweinydd digidol sy'n cael cefnogaeth lawn gan yr uwch dîm rheoli. | Datblygwch rôl yr arweinydd digidol a sicrhau bod archwiliadau o galedwedd, seilwaith rhwydwaith a medrau athro yn cael eu cynnal. Sicrhewch fod y wybodaeth o'r archwiliadau hyn yn llywio cynllunio ar gyfer gwelliannau a'r hyfforddiant ar gyfer staff.<br><br>Dosbarthwch gyfleoedd arwain a sicrhau bod staff yn y rolau hyn yn deall yn benodol am beth maent yn atebol a bod ganddynt y medrau i gyflawni'r dyletswyddau hyn. | Mae rôl yr arweinydd digidol, ac arweinyddiaeth ddosbarthedig, wedi'u sefydlu'n dda ac yn gyson lwyddiannus o ran codi safonau yn y ddarpariaeth ar gyfer addysgu medrau digidol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn barod i wireddu'r Fframwaith.<br><br>Mae pob arweinydd yn deall ei gyfrifoldebau'n glir mewn perthynas â darparu cyfleoedd i ddatblygu medrau digidol a safonau digidol dysgwyr. | Mae rôl yr arweinydd digidol ac arweinyddiaeth ddosbarthedig wedi'u sefydlu'n dda ac yn hynod lwyddiannus o ran codi safonau wrth addysgu medrau digidol, ac yn y ddarpariaeth ar gyfer hynny.<br><br>Yn aml, mae arweinwyr yn helpu gwella systemau y tu hwnt i'w hysgolion eu hunain. |
| **Gwella addysgu medrau digidol** | Sefydlwch systemau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu ynglŷn â gwireddu'r Fframwaith.<br><br>Sicrhewch fod pob un o'r staff yn deall sut beth yw addysgu medrau digidol yn dda. | Ymgorfforwch systemau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu am wireddu'r Fframwaith. Dylid cynnwys staff yn y broses hon.<br><br>Sicrhewch fod pob un o'r staff yn cymhwyso addysgu medrau digidol yn dda mewn gwersi. | Mae systemau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu am wireddu'r Fframwaith yn effeithiol. Mae pob un o'r staff mewn swyddi arwain yn cymryd rhan ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr at y gwaith hwn.<br><br>Mae pob un o'r athrawon yn meddu ar ddealltwriaeth gadarn o beth sy'n gwneud addysgu medrau digidol yn dda neu'n rhagorol ac mae'r rhan fwyaf o wersi'n dda neu'n well. | Mae trefniadau i ddadansoddi gwybodaeth hunanarfarnu am wireddu'r Fframwaith yn gyson effeithiol a dibynadwy. Mae agweddau ar y gwaith hwn yn gwbl ddatganoledig.<br><br>Mae ansawdd addysgu medrau digidol yn gyson dda ac yn aml yn rhagorol. O ganlyniad, mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd arbennig o dda ac yn cyflawni safonau uchel iawn. |
| **Datblygu cwricwlwm digidol i fodloni anghenion pob un o'r disgyblion** | Sicrhewch fod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn bodloni gofynion y Fframwaith.<br><br>Dylid gwella medrau digidol disgyblion. | Sicrhewch fod y cwricwlwm digidol yn bodloni gofynion y Fframwaith ac yn gweddu i anghenion a diddordebau pob un o'r disgyblion, gan eu galluogi i wneud cynnydd cadarn.<br><br>Dylid cynnal y ffocws ar wella medrau digidol a dysgu annibynnol disgyblion. | Sicrhewch fod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn cefnogi lefelau uchel o ymgysylltu â dysgu ac yn helpu pob disgybl i wneud cynnydd da.<br><br>Mae pob un o'r staff yn meddu ar ddealltwriaeth gref o sut i ddatblygu medrau digidol a dysgu annibynnol disgyblion i lefel uchel. | Sicrhewch fod y cwricwlwm a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau digidol yn hynod ddifyr ac yn cynorthwyo pob disgybl i wneud cynnydd cyson uchel. Gallai fod yn werth ailadrodd agweddau ar y ddarpariaeth hon mewn ysgolion eraill a bod yr ysgol yn rhannu ei harfer dda.<br><br>Mae pob un o'r staff yn hynod lwyddiannus o ran datblygu medrau llythrennedd, rhifedd, TGCh a dysgu annibynnol disgyblion. |
| **Dysgu proffesiynol** | Ar ôl archwilio medrau staff, pennwch drefniadau dysgu proffesiynol i:<br>• ddarparu cymorth penodol i staff, gan gynnwys medrau digidol perthnasol a diddorol yn eu haddysgu<br>• darparu cymorth penodol i alluogi staff i gynorthwyo'r ysgol i gyrraedd nodau gwella<br>• defnyddio DPP i bennu a chynnal disgwyliadau uchel mewn perthynas â darparu medrau digidol ar gyfer disgyblion<br><br>Dechreuwch ddatblygu cyfleoedd i staff gyfrannu at weithgorau i ganolbwyntio ar wireddu'r Fframwaith. | Parhewch i ehangu cyfleoedd datblygu er mwyn i staff ymgymryd â dysgu proffesiynol i wella'u harfer eu hunain a chodi safonau ar gyfer disgyblion.<br><br>Mae gweithgorau'n dechrau cyfrannu'n llwyddiannus at gyflawni'r Fframwaith a'i gynllunio ar draws y cwricwlwm. Maent yn dechrau ymgysylltu â phartneriaid allanol i ddatblygu arfer dda. | Mae trefniadau DPP yn effeithiol o ran gwella ansawdd darpariaeth ddigidol. Maent yn cefnogi darpariaeth well ar gyfer disgyblion yn gyson.<br><br>Mae llawer o staff yn ymholi a myfyrio i wella addysgu a dysgu medrau digidol gan rannu arfer dda ar draws yr ysgol. Mae athrawon yn rhwydweithio'n rheolaidd â chydweithwyr mewn ysgolion eraill i godi safonau addysgu, dysgu a lles trwy'r Fframwaith. | Mae trefniadau ar gyfer DPP pob un o'r staff yn hynod effeithiol ac yn cefnogi diwylliant o wella medrau digidol yn barhaus yn yr ysgol.<br><br>Mae pob un o'r staff yn ymgymryd yn rheolaidd â dysgu proffesiynol effeithiol yn unigol neu fel rhan o weithgor. Maent yn ymgymryd â gweithgarwch ymchwil, hyfforddi neu fentora i wella'u harfer broffesiynol eu hunain a phobl eraill wrth ddefnyddio'r Fframwaith. |
| **Defnyddio medrau digidol disgyblion** | Pennwch drefniadau i ystyried defnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi eu cyfoedion a staff. | Datblygwch drefniadau a hyfforddiant ymhellach i ddefnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi eu cyfoedion a staff. | Mae defnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi eu cyfoedion a'u staff yn rhan ddylanwadol a sefydledig o wireddu'r Fframwaith. | Mae defnyddio medrau digidol disgyblion i hyfforddi eu cyfoedion a staff yn cael effaith reolaidd a chadarnhaol ar godi safonau darpariaeth, dysgu a lles. |

**#FframwaithCymhwyseddDigidol**

**#CwricwlwmiGymru**

Estyn